TYFU BUSNES
GYDAG ARLOESEDD

**RHIFYN 7** - Ionawr / Chwefror 2017



**Tudalen 7.** Bydd cynllunio gofalus yn helpu i wneud y defnydd cynaliadwy mwyaf o faw dofednod


SAFLE FFOCWS
PENCRAIG, TRELECH

Deall defnydd ymarferol o GEBV gwahanol o ran Nodweddion Carcas.



## LLEIHAU'R DEFNYDD O WRTHFIOTIG AR ADEG ŴYNA

Plas, Llandegfan yn edrych ar leihau defnydd gwrthfiotig drwy ganolbwyntio ar faeth a chyflwr mamogiaid.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tudalen 6.
Ychwanegu gwerth at goed
**Skirrid Farm**



Tudalen 12.
**Digwyddiadau**
Beth sy'n mynd ymlaen yn eich ardal chi...

# CYFLWYNIAD



Mae'r ŵyna wedi dechrau yma yn Great Tre-rhew ar ôl i ni gynyddu nifer y mamogiaid magu yn ddiweddar o 900 i 1300 dros y ddwy fferm. Roedd canran sganio'r defaid sydd wedi eu hannog i ŵyna ym mis Ionawr gan ddefnyddio sbwng yn 195%, mamogiaid Chwefror yn 185% ac ŵyn benyw ar 180%, ac mae'r ŵyna yn mynd yn dda hyd yn hyn. Bydd y mamogiaid yn cael eu trin am lyngyr a'u dosio unwaith y flwyddyn wrth eu rhoi i mewn, a chynhelir profion cyfrif wyau ysgarthol a choproantigen ELISA i sicrhau bod y driniaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac rydym yn gwirio ar hyn o bryd am wrthedd anthelmintig yn y ddiadell.

Mae ŵyna yn gynnar yn gweithio i ni, gan ddal marchnad y Pasg a defnyddio porthiant wedi ei dyfu gartref. Trwy bori swêj dros y gaeaf gallwn sicrhau bod gennym borfa yn barod at droi'r mamogiaid a'r ŵyn allan. Rydym yn awr yn edrych ar brotein wedi ei dyfu gartref i ddod yn hollol hunangynhaliol gan ein bod yn ei brynu i mewn ar hyn o bryd i'w falu a'i gymysgu.

Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus yma ym mis Rhagfyr yn dangos rheoli coetir ar y fferm. Torrwyd 0.65 hectar o lain gysgodi, gan gynhyrchu 450 metr ciwbig o befrwydden Sitka. Cadwyd 1,000 o byst yn ôl ar gyfer ffensio gyda'r gweddill yn cael ei werthu ymlaen cyn gynted ag y bydd yn ddigon sych i'w gludo lawr i ochr y ffordd.

Roedd yn costio £400 am ddiwrnod o greu estyllod a'r canlyniad oedd toiledau newydd ar gyfer ein hysgubor hynafol *(llarwydd wedi eu torri)*, distiau derw, drysau derw newydd i'r tŷ a gwaelod a thrawst ar gyfer gwasg seidr newydd. Y cyfan o bren fyddai wedi cael ei ddefnyddio fel coed tân fel arall. Roedd gwerth un goeden dderw ar ôl ei throi yn estyll dros £2,000. Fe wnaeth argraff arnom, ac rydym eisoes yn bwriadu trefnu i greu estyll eto.

**Jim a Kate Beavan, Fferm Great Tre-rhew, Llanwytherin**
*Safle Arddangos Cyswllt Ffermio*


## GWASANAETH CYNGHORI

Mae ein Gwasanaeth Cynghori'n darparu amrediad o gyngor cymorthdaledig, annibynnol, cyfrinachol ac wedi'i deilwra ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth, yn ogystal â busnesau bach a chanolig yn y sector bwyd.

**Cyngor un-i-un - wedi'i ariannu hyd at 80%**
**Cyngor grŵp - wedi'i ariannu hyd at 100%**

Ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth
**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/gwasanaeth-cynghori**




## Prosiect Safle Ffocws yn Pencraig, Trelech, Sir Gaerfyrddin

*"Deall defnydd ymarferol o GEBV gwahanol o ran Nodweddion Carcas"*

*- Dr Delana Davies: Swyddog gweithredol cyfnewid gwybodaeth - Cyswllt Ffermio*

A hwythau eisoes wedi ymsefydlu mewn sectorau amaethyddol eraill, mae Gwerthoedd Bridio Genomig *(GEBV)* ar gael yn awr ar gyfer yr holl wartheg o darw Limousin ar gyfer ystod o Nodweddion Carcas newydd. Mae GEBV yn mynd â'r EBV *(Gwerthoedd Bridio Tybiedig)* gam ymhellach trwy ddefnyddio gwybodaeth o DNA yr anifail yn ogystal â'r mesuriadau perfformiad arferol.

Mae Thomas a Hannah Price yn cadw buches Limousin o 25 o fuchod ar eu fferm 260 erw ym Mhencraig ynghyd â 500 o famogiaid croes Texel. Canolbwyntiodd y gwaith prosiect ar y gwartheg ar gasglu DNA ffoliglau blew 40 o anifeiliaid, gan gynnwys teirw stoc, buchod yn barod am y tarw, teirw ifanc ar werth a heffrod a gadwyd i fridio arnynt. Yn ogystal â Nodweddion Carcas GEBV, profwyd y samplau DNA hefyd am amrywiadau Myostatin oedd yn cael eu cario i werthuso unrhyw berthynas bosibl rhwng Nodweddion Carcas, Myostatin a Rhwyddineb Lloea.

Crëir tri phrif ganlyniad o gymharu DNA yr anifail unigol ag 'allwedd' sy'n croes-gyfeirio gwybodaeth o'r llinyn DNA gyda gwahanol lefelau o berfformiad yn y lladd-dy:


**GEBV Oedran hyd eu lladd** (dyddiau)

Chwilio am...Werthoedd negyddol uchel (llai o ddyddiau) i anifeiliaid a fydd yn cyrraedd 350kg o bwysau ar y bach yn gyflymach



**GEBV Pwysau Carcas** (kg)

Chwilio am...Werthoedd positif uchel i anifeiliaid a fydd yn cyrraedd pwysau carcas uwch yn 600 diwrnod oed



**Gwerth Adwerthu** (mynegai)

Chwilio am...Werthoedd positif uchel i anifeiliaid fydd yn cyrraedd y pwysau lladd yn gyflym a chyda chyfran uchel o'r toriadau carcas o ansawdd uchel



Bydd cymharu'r GEBV a geir gyda'r siart canraddol yn dangos lle mae'r anifail yn sefyll yn y brîd, ac mae gwaith wedi dynodi gwahaniaeth mewn gwerth adwerthu o tua £100-£150 i bob carcas rhwng epil tarw gyda GEBV uchel ac epil tarw gyda GEBV isel.


Trwy werthuso genynnau anifail yn gynharach, neu hyd yn oed werthuso ei rieni, gallwn bennu amlder *(a nifer o gopïau)* o enynnau a all ddylanwadu ar ansawdd y cig, ac felly gwneud penderfyniadau bridio ar sail y wybodaeth honno.

Bydd derbyn technoleg genomig yn rhoi cyfle i ffermwyr pedigri a masnachol fod yn fwy cywir yn eu penderfyniadau bridio, ac yn fwy ymatebol i anghenion a gofynion y farchnad.

# Lleihau'r gyfradd o achosion newydd o fastitis clinigol yn lleihau'r defnydd o wrthfiotig ac yn helpu fferm laeth i arbed £55,000 y flwyddyn

**Mae fferm laeth yng Nghymru yn arbed cyfanswm anhygoel o £55,000 y flwyddyn ar achosion o fastitis clinigol, mewn cymhariaeth â rhai blynyddoedd yn ôl, ar ôl gweithredu Cynllun Rheoli Mastitis Buchod AHDB Dairy, sydd wedi arwain at lai o achosion newydd o'r afiechyd yn y cyfnod llaetha cynnar. Cyflawnwyd hyn trwy wella'r rheolaeth ar fuchod sych a buchod yn lloea ac mae wedi golygu gostyngiad sylweddol yn y defnydd o wrthfiotig ar y fferm.**

Yn 2013, roedd y gyfradd mastitis clinigol gyffredinol yn Nant Goch, Pen y Bont, Croesoswallt yn 70 achos o 100 o wartheg ar gyfartaledd y flwyddyn ar draws y fuches o 700 o wartheg. Pan weithredwyd y Cynllun Rheoli Mastitis yn 2014-15, roedd mastitis yn costio £117,927 y flwyddyn i'r busnes yn ôl yr amcangyfrif. Ond, erbyn hyn mae'r gyfradd mastitis wedi gostwng o 50% ac mae'r cyfrif celloedd somatig hefyd wedi gostwng yn sylweddol, ac yn 2015-16 roedd y gost wedi lleihau i £62,894.




| | 2014-2015 | 2015-2016 |
|---|---|---|
| Cyfradd mastitis (achosion/ 100 buwch/ y flwyddyn) | 57.7 | 30.8 |
| Cyfanswm y gost* | £117,927 | £62,894 |
| Cost/buwch/y flwyddyn | £151.19 | £80.63 |

** Amcangyfrif o gyfanswm y gost wedi ei gyfrifo o ffigyrau penodol i'r fferm am gost achos clinigol o fastitis, gan gynnwys pris y llaeth, cost porthiant a gwrtaith, cost triniaeth, amser yr hwsmon, lleihad yn y cynnyrch llaeth, cyfran o achosion mastitis sy'n ddifrifol, a buchod a werthwyd o'r fuches oherwydd mastitis*

Yn y 12 mis yn dod i ben ym Mai 2016, roedd 256 yn llai o achosion o fastitis ar y fferm nag am y 12 mis yn dod i ben Mai 2013, sy'n golygu bod 1,536 yn llai o diwbiau gwrthfiotig wedi eu defnyddio, ar gyfartaledd o chwe thiwb i bob achos.

Mae prosiect Safle Ffocws Cyswllt Ffermio wedi parhau'r Cynllun Rheoli Mastitis ar Nant Goch, gyda'r nod o wella iechyd y gader/pwrs a rheoli mastitis yn y fuches a lleihau'r defnydd o wrthfiotig. Mae'r milfeddyg Dr James Breen, arbenigwr cydnabyddedig gan y Coleg Brenhinol mewn iechyd a chynhyrchu gwartheg, yn gweithio'n glos gyda milfeddygfa'r fuches ei hun ac yn ddiweddar bu'n siarad mewn digwyddiad ar y cyd gan AHDB Dairy a Chyswllt Ffermio yn Nant Goch.

Dywedodd: *"Mae'r cynnydd rhagorol o ran rheoli mastitis yn Nant Goch yn tynnu sylw at y manteision o weithredu Cynllun Rheoli Mastitis - ac yn yr achos hwn yr effaith clir y mae heintiadau yn ystod y cyfnod sych yn eu cael yn y llaethiad nesaf. Trwy wneud ychydig o welliannau wedi eu targedu i amgylchedd a rheolaeth y buchod sy'n agos at loeau, mae'r fuches wedi torri cost mastitis sydd wedi gwella lles y gwartheg a'u cynhyrchiant a gostwng y defnydd o wrthfiotig ar y fferm yn sylweddol."*

Pan weithredwyd y Cynllun Rheoli Mastitis ar y fferm, dangosodd dadansoddiad o achosion clinigol a data cyfrif celloedd somatig bwysigrwydd heintiadau amgylcheddol yn y fuches, yn deillio yn bennaf o'r cyfnod sych. Mae newidiadau o ran rheolaeth a hwsmonaeth wedi helpu i leihau'r raddfa y mae'r gwartheg yn datblygu mastitis clinigol arni yn ystod 30 diwrnod cyntaf y llaethiad o ddau i dri achos am bob 12 buwch mewn perygl i lai nag un fuwch ym mhob 12 yn dioddef. Yn y 12 mis yn dod i ben ym Mai 2016, 97 o fuchod oedd yn dioddef mastitis clinigol yn y mis cyntaf, mewn cymhariaeth â 247 o Fai 2012-Fai 2013.

*"Roedd cyfuniad o newidiadau yn bwysig yn Nant Goch, gan gynnwys rheoli cwbiclau i'r buchod agos at loea, rheoli'r buarth lloea a newidiadau i grwpiau o gwmpas amser lloea. Yn ogystal ag amgylchedd y buchod sych, rydym wedi gwella glanweithdra wrth eu sychu i osgoi'r risg o heintiad wrth roi therapi buchod sych, a symud at ddefnyddio seliwr tethi yn unig mewn buchod â chyfrif celloedd somatig isel wrth eu sychu i leihau'r risg o fastitis E. coli yn y llaethiad nesaf."*

Mae mabwysiadu dull dethol o drin buchod sych hefyd wedi bod yn gam pwysig i leihau'r risg o fastitis clinigol mewn buchod newydd loea, yn ogystal â lleihau'r defnydd o wrthfiotig, sy'n tanlinellu sut y mae'r diwydiant yn gweithio gyda'r llywodraeth i leihau'r defnydd o wrthfiotig ar ffermydd.

Mae Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio wedi cynhyrchu erthygl dechnegol ar Therapi Dethol i Fuchod Sych. I weld yr erthygl ewch i ***businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/canolfan-cyfnewid-gwybodaeth***


Selective dry cow therapy – what is it and should I use it on my farm?

Dr Ruth Wonfor: IBERS, Aberystwyth University

Take home messages:

What is selective dry cow therapy?

How can I implement SDCT on my farm?

## Digonedd o ddewisiadau i ychwanegu gwerth at goed ar goetiroedd fferm



MAE 'cyfleoedd di-ri' i ychwanegu gwerth at goetiroedd fferm nad ydynt yn cael eu defnyddio i'r eithaf trwy dynnu a thorri coed y gellir wedyn eu gwerthu neu eu defnyddio ar y fferm. Mae adfer lleiniau cysgodi sydd wedi eu hesgeuluso hefyd yn cynnig cyfle i wella rheolaeth ar adnoddau naturiol ar y fferm.

Ar Fferm Skirrid, Llanddewi Ysgyryd, ger Y Fenni, torrwyd 300 tunnell o goed oddi ar floc conwydd 0.65 hectar. Yn ogystal â pherfwydd Sitka o'r llain gysgodi, torrwyd rhai llarwydd a derw ar y fferm, gyda'r nod o greu cynnyrch gwerthfawr i fusnes y fferm o adnodd nad oedd yn cael ei ddefnyddio.



*"Mae'r llain gysgodi yn ddarn anarferol o goetir nad yw o fawr o werth gan ei fod wedi cyrraedd diwedd ei oes. Ond, trwy dorri'r coed rydym wedi ychwanegu gwerth ar y buarth gyda'r coed yr ydym yn eu casglu,"* dywedodd y Ffermwr Arddangos Jim Beavan.

Torrwyd y befrwydden yn byst ffensio a byrddau Swydd Efrog i'w rhoi ar rai o siediau'r fferm, a thorrwyd y llarwydd yn goed toi i helpu i drwsio ysgubor carreg a defnyddir y derw i wneud gwasg seidr. Bydd gweddill y coed yn cael ei werthu a bydd derw, ffawydd a chriafol yn cael eu plannu ar y safle i ail sefydlu'r llain gysgodi.

Wrth gynllunio lleiniau cysgodi, bydd plannu llwyni a choed gyda'i gilydd yn creu rhagor o haenau i gysgodi rhag y gwynt a byddant yn dod yn effeithiol yn gynt mewn cymhariaeth. Yn ogystal ag ail sefydlu cysgod i gnydau a da byw ar y fferm, gall yr ardaloedd sy'n bodoli fod yn ffynhonnell incwm posibl os defnyddir technegau rheoli fel teneuo.

Wrth symud coed oddi ar ffermydd, mae cynllunio a rheoli gofalus yn allweddol i gael llwyddiant i gael yr incwm mwyaf posibl. Rhaid i'r holl drwyddedau perthnasol fod yn eu lle a rhaid rhoi ystyriaeth i ddulliau cynaeafu a chludo oddi ar y safle diogel, a'r hyn sydd ei angen o'r pren.



## Bydd cynllunio gofalus yn helpu i wneud y defnydd cynaliadwy mwyaf o faw dofednod

Gall baw dofednod gynnig gwrtaith rhagorol ar gyfer glaswelltir a chnydau, ond rhaid targedu'r defnydd a chynllunio i reoli maetholion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd cynaliadwy a bod y maetholion yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac i gadw'r maetholion a gollir mor isel â phosibl.

Mae tail dofednod yn llawn o Nitrogen (N) a Ffosffad (P) sydd wedi arwain at bryderon am lygru cyrsiau dŵr, yn arbennig mewn ardaloedd gyda nifer fawr o unedau dofednod. Ond, mae ei gyfoeth o ran maetholion yn golygu bod tail dofednod yn cynnig dewis gwahanol deniadol yn lle gwrteithiau wedi eu prynu i mewn. Yn seiliedig ar y dadansoddiad maetholion safonol isod, mae gan dail dofednod werth o ran maetholion o £18.50 y dunnell, lle mae'r Nitrogen ar gael yn werth £5.50, Ffosffad £8 a'r Potash £5.

| | DM | Cyfanswm N | N ar gael | P ar gael | K ar gael |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ieir Dodwy** | 35% | 19kg | 9.5kg/t | 8.4kg/t | 8.6kg/t |
| **Cyw brwylio** | 60% | 30kg | 10.5kg/t | 15kg/t | 10kg/t |

*"Mae'r cyfan yn ymwneud â lleihau gwastraff a gwneud y mwyaf o'r enillion trwy leihau cyfanswm y gwrtaith a'r porthiant sy'n cael eu prynu i mewn"* dywedodd yr arbenigwr glaswelltir annibynnol Chris Duller wrth ffermwyr mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio. *"Ond mae'n rhaid i chi feddwl am osgoi llygredd a gorgyflenwi systemau glaswellt â maetholion, felly rhaid cael cynllun cynaliadwy a risg isel tymor hir yn ei le."*

Dadansoddwch y tail i bennu lefel y maetholion a chymerwch samplau pridd i dargedu caeau lle mae'r mynegai P yn isel ar 0 a 1 neu gnydau sy'n gofyn am lawer o P. Cyfyngwch yr N a chwelir i 60% o gyfanswm gofyn y cnwd a'i ymgorffori yn y ddaear yn gyflym i osgoi colledion posibl.

Bydd Cynllun Rheoli Maetholion yn dynodi ardaloedd sy'n creu risg ar y fferm. Ceisiwch osgoi caeau gyda pH isel, hefyd caeau ar lethr, sofl moel, tir wedi rhewi'n galed, ardaloedd sy'n dueddol o fod yn llawn dŵr ac unrhyw le sydd o fewn 10 metr i gwrs dŵr.

Mae storio yn bwysig i osgoi colledion maetholion posibl, fel y mae rheoli ardal grwydro'r haid tu allan i'w cytiau i osgoi difrod i'r pridd ac atal dŵr rhag rhedeg oddi arno. Argymhellir newid yr ardaloedd crwydro bob chwech i wyth wythnos er mwyn i'r pridd adfer, a dylid annog yr adar i grwydro ymhellach i atal y maetholion rhag cynyddu gormod yn yr ardal yn union o gwmpas y cytiau.



## Prosiect safle ffocws yn y Rhiwlas, Y Bala, RHEOLAETH DDIWASTRAFF


Mae'r cysyniad o reolaeth ddiwastraff *(Lean Management LM)* er yn gymharol newydd yn y sector llaeth yn un sydd wedi ei hen sefydlu i lawer yn y diwydiant gweithgynhyrchu gyda Toyota yn enghraifft enwog. Yr amcan trosfwaol yw diddymu ac atal creu gwastraff systematig a gwneud y mwyaf o werth trwy wneud y defnydd gorau o fewnbwn. Mae'r enghreifftiau yn y sector llaeth yn cynnwys gwella ffrwythlondeb y fuches, cloffni, mastitis a chyfraddau cyfnewid. Bydd LM yn dynodi'r ffrydiau gwerth (e.e. *Dangosyddion Perfformiad Allweddol ffisegol ac ariannol)* a chael gwared ar wastraff *(llwyth gwaith diangen, mastitis ac ati)* ac mae'n eithriadol o werthfawr wrth ganfod gwreiddyn y problemau i gynorthwyo gwelliant parhaus.

Bydd Andrew Nicholas ymgynghorydd rheolaeth ddiwastraff cymwys yn gweithio yn glos gyda Sam Carey o'r Rhiwlas, i sefydlu ac ymwreiddio protocolau rheolaeth ddiwastraff a gwella prosesau ymarferol y gall staff y fferm eu dilyn.

Arweiniodd treialu rheolaeth ddiwastraff trwy AHDB a Choleg Reaseheath ar amrywiol ffermydd treialu mewn enillion gan gynnwys cynnydd yn yr elw net o 1 geiniog y litr i 5, yr oriau i bob buwch wedi gostwng o 21 i 15 awr ac arbedion o 4 ceiniog y litr mewn costau porthiant a dwysfwyd mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.

Bydd prosiect fferm Ffocws Cyswllt Ffermio yn edrych ar sut y gall rheolaeth ddiwastraff helpu Rhiwlas i gynyddu effeithlonrwydd a'r enillion net, gosod targedau y gellir eu cyflawni a datblygu proffesiynoldeb a chysondeb o ran arferion gwaith staff y fferm.

### MAP LLIF GWERTH SYML AR GYFER FFERM LAETH




# Lleihau'r defnydd o wrthfiotig ar adeg ŵyna

*gan Kate Hovers BVSc CertSHP MRCVS*

### SAFLE ARDDANGOS CYSWLLT FFERMIO PLAS, LLANDEGFAN



Mae gorddefnyddio a chamddefnyddio gwrthfiotig mewn pobl ac anifeiliaid yn bryder gwirioneddol. Gall hybu gwrthedd yn yr heintiau sy'n cael eu trin. Er enghraifft, gwelwyd *E.coli* mewn ŵyn yn y Deyrnas Unedig sydd â gwrthedd i lawer o wrthfiotigau.

Ar fferm arddangos Cyswllt Ffermio yn y Plas, Llandegfan ar Ynys Môn, mae Arwyn Jones yn edrych ar leihau faint o wrthfiotig a ddefnyddir mewn ŵyn newydd eu geni trwy ganolbwyntio ar faethiad a chyflwr y mamogiaid a glanweithdra'r adeiladau, y defaid a'r bugeiliaid.

Pennir os bydd anifeiliaid yn mynd yn wael neu beidio gan y cydbwysedd rhwng yr heintiad y maent yn ei wynebu a'u diogeliad rhag yr heintiad hwnnw. Bydd rheolaeth dda ar y ddiadell a maethiad y mamogiaid yn helpu'r cydbwysedd hwnnw.

Erbyn hyn mae cyfleusterau golchi dwylo gyda dŵr poeth yn y siediau ŵyna, mae hwn yn faes sy'n cael ei anghofio yn aml a gall afiechyd gynyddu yn gyflym ar ddwylo, dillad ac esgidiau. Pan na ellir golchi dwylo ac wrth ŵyna allan, gellir defnyddio gel diheintio.

Gosodwyd rhai corlannau unigol mewn bloc ar wahân ar gyfer unrhyw famogiaid sy'n erthylu neu yn wael neu ŵyn gwael. Os bydd oen gwael wedi bod mewn corlan ni ddylid ei defnyddio eto nes bydd wedi ei glanhau yn llwyr, ei golchi a'i diheintio.

Bydd samplau o'r deunydd dan yr anifeiliaid yn y corlannau unigol a'r brif ardal ŵyna yn cael eu cymryd a'u profi am facteria yn ystod yr ŵyna i weld pa facteria all fod yn cynyddu.

Mae Arwyn yn dadansoddi ei borthiant bob amser ac yn seilio ei ddognau ar hynny. Yn ychwanegol, eleni profwyd gwaed y mamogiaid i edrych ar eu proffil metabolig 2 i 3 wythnos cyn ŵyna. Dangosodd hyn bod y mamogiaid sy'n magu gefeilliaid ychydig yn brin o egni. Byddai'r dwysfwyd yn cael ei gynyddu i 600g y dydd ond roedd yn cael ei gynyddu i 720g yn dilyn yr ymchwiliad hwn.

Mae maethiad yn hanfodol ar gyfer colostrwm o ansawdd da, bydd gwaed yr ŵyn yn cael ei samplo i wirio faint o imiwnoglobwlin o golostrwm sydd ganddynt, sy'n dangos diogeliad rhag afiechyd ac mae'n wiriad heb fod yn ddrud y gall milfeddyg ei wneud.

Trwy fonitro cyflwr y famog a'r oen gall addasiadau gael eu gwneud yn ôl y gofyn gyda'r nod yn y pen draw o leihau'r defnydd o wrthfiotig yn y ddiadell. Bydd yr ŵyn hyn wedyn yn cael eu monitro am gynnydd pwysau byw dyddiol a'u gwrthedd i lyngyr yn gyson nes byddant yn cael eu gwerthu yn ŵyn tew. Bydd hyn yn rhoi syniad i ni faint o ffactor yw'r colostrwm y mae'n ei gymryd ym mherfformiad yr oen.

# CYNLLUNIO RHEOLI MAETHOLION

## Canolfan gyfnewid gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae eich adnoddau tail yn werthfawr. Rhaid iddynt gael eu rheoli yn dda i leihau costau gwrtaith a chyfrannu deunydd organig gwerthfawr sy'n gwella eich priddoedd. Bydd hyn yn dod yn bwysicach os byddwch yn ffermio mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ) lle mae cyfyngu ar lygredd nitradau a chadw ansawdd y dŵr yn dda yn flaenoriaeth.

### FAINT SYDD GENNYCH?

**NITRAM (600KG)**



207kg o Nitrogen/bag

**TAIL (1 DUNNELL)**



(25%DM) yn cynnwys **6**kg N, **3.2**kg P a **8**kg K

**SLYRI (1000GAL)**



(6%DM) yn cynnwys **11.8**kg N, **5.4**kg P a **14.5**kg K

Ffigyrau o lyfr yw'r rhain ar gyfer cyfanswm y maetholion (nid yw'r NPK i gyd ar gael ar unwaith) a ddaeth o'r Llawlyfr Gwrtaith (RB209): mae'n syniad da dadansoddi eich tail a slyri i gadarnhau'r cynnwys o ran maetholion ac i chi fedru cynllunio i chwalu yn fwy manwl gywir.

### FAINT SYDD AR EICH CNWD EI ANGEN?

Bydd angen i chi gyfrifo hyn trwy ystyried:

- eich mynegai pridd a'r argymhellion ar gyfer y cnwd yr ydych yn ei dyfu
- yr adnoddau maeth sydd gennych ar gael ac amseriad y chwalu
- defnyddiwch offer fel meddalwedd **PLANET** a **MANNER NPK** ***www.planet4farmers.co.uk***, y Llawlyfr Gwrtaith (RB209) a gofynnwch am gyngor gan gynghorydd FACTS cymwys sydd yn gallu eich helpu i lunio cynllun rheoli maetholion. Trwy wasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio gall ffermwyr gael mynediad at gyllid ar gyfer 80% tuag at Gynllunio Rheoli Maetholion. Gweler ein tudalennau gwe Cyswllt Ffermio yn: ***http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingconnect***

Mae help ar gael i chi os ydych yn ffermio mewn NVZ – ffoniwch linell gymorth NVZ Cymru **01974 847000** ac edrych ar **www.gov.wales**






**Rydym yn derbyn ceisiadau ar gyfer yr Academi Amaeth 2017 nawr!**

**RHAGLEN ARWEINYDDIAETH WLEDIG -**
i arweinwyr amaethyddol y dyfodol

**RHAGLEN BUSNES AC ARLOESEDD -**
i arloeswyr ac entrepreneuriaid y diwydiant ffermio

**RHAGLEN YR IFANC -**
i'r rhai hynny sydd eisiau datblygu gyrfa gyffrous yn y diwydiant bwyd a ffermio

Am ragor o wybodaeth ac i lawr lwytho copi o'r ffurflen gais, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DIGWYDDIADAU

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | CYSWLLT |
|---|---|---|---|---|
| **15/02/17** | Gwella goroesiad moch bach | 11:00 – 13:00 | Ffridd, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6NH | **Gwawr Llewelyn Hughes** 07896 996841 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk |
| **16/02/17** | Rheoli ffrwythlondeb – cynyddu cyfraddau beichiogrwydd yn y fuches laeth | 11:00 – 14:00 | Tyreglwys Farm, Gypsy Lane, Llangennech, Llanelli | **Jamie McCoy** 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk |
| **21/02/17** | Gweithdy Datblygu eich busnes | 11:00 – 14:30 | Caerfyrddin | **Carys Thomas** 01970 631402 carys.thomas@menterabusnes.co.uk |
| **01/03/17** | Cadw afiechyd ALLAN! | 18:30 – 20:30 | The Fforest Inn, Presteigne, Powys, LD8 2TN | **Gwawr Llewelyn Hughes** 07896 996841 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk |

## CYMORTHFEYDD PDP

| DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | CYSWLLT |
|---|---|---|---|
| **06/03/17 13/03/17 27/03/17** | 10:00 –15:30 | Monmouthshire Livestock Market, NP15 2BH | **Catherine Smith** 07896 996841 catherine.smith@menterabusnes.co.uk |
| **06/03/17 20/03/17** | 09:00 –13:00 | Welshpool Livestock Sales, SY21 8SR | **Gwenan Ellis** 07866 547894 gwenan.ellis@menterabusnes.co.uk |
| **07/03/17** | 09:00 –17:00 | Feathers Royal Hotel, Aberaeron, SA46 0AQ | **Eleri Jewell** 07985 379887 eleri.jewell@menterabusnes.co.uk |
| **07/03/17 21/03/17** | 09:00 –17:00 | Gelli Aur College Farm, Golden Grove, Caerfyrddin, SA32 8NJ | **Alun Bowen** 07896 262736 alun.bowen@menterabusnes.co.uk |
| **13/03/17 20/03/17 27/03/17** | 09:00 –17:00 | Menter a Busnes, Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth, SY23 3AH | **Eleri Jewell** 07985 379887 eleri.jewell@menterabusnes.co.uk |
| **14/03/17 21/03/17** | 15:00 –19:00 | Gwesty'r Bull, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR | **Trystan Siôn** 01248 668638 trystan.sion@menterabusnes.co.uk |
| **14/03/17** | 09:00 –17:00 | Castle Hotel, Aberhonddu, LD3 9DB | **Nerys Hammond** 07985 379816 nerys.hammond@menterabusnes.co.uk |
| **14/03/17 28/03/17** | 09:00 –17:00 | Gelli Aur College Farm, Golden Grove, Caerfyrddin, SA32 8NJ | **Gareth Griffiths** 07772 694112 gareth.griffiths@menterabusnes.co.uk |
| **15/03/17 29/03/17** | 09:00 –17:00 | FUW, 21 Stryd Fawr, Lampeter, SA48 7BG | **Eleri Jewell** 07985 379887 eleri.jewell@menterabusnes.co.uk |
| **17/03/17** | 10:00 –15:30 | Heads of the Valley Training, Y Fenni, NP7 0EB | **Catherine Smith** 07896 996841 catherine.smith@menterabusnes.co.uk |
| **20/03/17 27/03/17** | 10:00 –17:00 | Gower Golf Club, 3 Crosses, Abertawe, SA4 3HS | **Deian Thomas** 07772 694952 deian.thomas@menterabusnes.co.uk |
| **22/03/17** | 10:00 –17:00 | Coleg Pencoed College, Pen y Bont ar Ogwr, CF35 5LG | **Deian Thomas** 07772 694952 deian.thomas@menterabusnes.co.uk |